# SL(6)667 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997 ("Rheoliadau 1997") i ddarparu ar gyfer cynyddu'r taliadau sydd i'w gwneud drwy system dalebau o ran y costau yr eir iddynt gan gategorïau penodol o bersonau mewn cysylltiad â chyflenwi, amnewid a thrwsio teclynnau optegol. Mae'r Rheoliadau yn cynyddu gwerthoedd talebau optegol o 1 Ebrill 2025 ac yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â thalebau a ddyroddir neu a gwblheir ond sydd heb eu defnyddio na'u derbyn cyn 1 Ebrill 2025.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. **Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn.**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 21 Hydref 2025 a daethant i rym ar 11 Tachwedd 2025. Fodd bynnag, maent yn cael effaith o 1 Ebrill 2025.

Mae'r Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau yn nodi'r canlynol:

> *Bydd y Rheoliadau hyn yn cael effaith ôl-weithredol yn ôl i 1 Ebrill 2025 er mwyn sicrhau bod y cynnydd yng ngwerth y talebau yn cael effaith o'r dyddiad hwnnw fel y cytunwyd yn ystod y negodiadau teirochrog rhwng Llywodraeth Cymru, GIG Cymru ac Optometreg Cymru, yn unol â'r broses arferol a chan bod yn gydnaws â gwasanaethau contractwyr eraill, ac yn darparu, drwy hynny, ddull teg ar draws yr holl gontractwyr gofal sylfaenol.*

*Amseru'r negodiadau blynyddol sy'n ystyried canlyniad y Bwrdd Cydnabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion yw'r rheswm pam mae'n ofynnol i'r Rheoliadau hyn gael effaith ôl-weithredol, gan ddarparu dull teg ar draws yr holl gontractwyr gofal sylfaenol.*

Nodir bod yr un mater wedi codi mewn perthynas â Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2025. Er bod y Pwyllgor yn nodi'r esboniad a ddarparwyd ar gyfer yr effaith ôl-weithredol, gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio sut y mae'n bwriadu osgoi'r angen i wneud rheoliadau ag effaith ôl-weithredol yn y maes hwn yn y dyfodol.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae Atodlen 1 i'r Rheoliadau yn disodli Atodlen 1 i Reoliadau 1997. Yn yr Atodlen 1 newydd i Reoliadau 1997, cyfeirir ar ddau achlysur at "Ddeddf 2006". Nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio yn y Rheoliadau nac yn Rheoliadau 1997. Yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ystyr "Deddf 2006" yw Deddf Iechyd 2006 ond mae'r cyfeiriad yn yr Atodlen 1 newydd i Reoliadau 1997 at Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Felly, nid oes gan y term "Deddf 2006" yr ystyr diffiniedig cywir at ddibenion y Rheoliadau hyn na'r Atodlen 1 newydd i Reoliadau 1997.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 11 Tachwedd 2025, llai nag 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol at y Llywydd ar 4 Tachwedd 2025 a dywedodd y canlynol:

*Bwriad Llywodraeth Cymru oedd cydymffurfio'n llawn â'r confensiwn 21 diwrnod o ran gosod a dod i rym. Yn anffodus, bu camgyfrifiad wrth gyfrifo'r 21 diwrnod rhwng adeg gosod a dod i rym y Rheoliadau hyn gan arwain at beidio â dilyn y confensiwn yn llawn o 2 ddiwrnod. Canlyniad y camgymeriad anfwriadol hwn yw y bydd y Rheoliadau yn dod i rym 19 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.*

*Diolchaf i dîm clercio Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd am nodi'r mater hwn ac am roi gwybod i Lywodraeth Cymru amdano'n brydlon.*

**4. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

*Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Fodd bynnag, gweithiodd Optometreg Cymru, gan weithredu fel y corff proffesiynol sy'n cynrychioli optometryddion cymunedol, optegwyr ac optegwyr cyflenwi ledled Cymru, mewn cydweithrediad i ddodi ganlyniad a negodwyd y cytunwyd arno ar werthoedd y talebau drwy drafodaethau teirochrog â Llywodraeth Cymru a GIG Cymru. Mae hyn yn dilyn proses flynyddol sefydledig a chydweithredol rhwng y partneriaid cyflenwi allweddol sy'n defnyddio dull partneriaeth gymdeithasol.*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd technegol yn unig.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 17 Tachwedd 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.